

Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi ym mis Gorffennaf 2020 ac yn gynharach

Mae Athrofa Padarn Sant, drwy Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, yn darparu grantiau cymorth i hyfforddi er mwyn cyfrannu tuag at dreuliau tai a byw ymgeiswyr a noddir gan Esgob¹.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at y categorïau a ganlyn o ymgeiswyr:

- **Categori A** - Ymgeiswyr amser llawn, sy'n astudio yn Athrofa Padarn Sant, ac sydd wedi symud i Athrofa Padarn, Caerdydd, neu sydd mewn eiddo ar rent gerllaw er mwyn hyfforddi.
- **Categori B** - Ymgeiswyr amser llawn, sy'n astudio yn Athrofa Padarn Sant, Caerdydd, rhwng dydd Mercher a dydd Gwener yn ystod y tymor ond sy'n parhau i fyw yn eu Hesgobaeth ac ar leoliad yno².
- **Categori C** – Ymgeiswyr rhan-amser, sy'n astudio yn Athrofa Padarn Sant ar gyfer gweinidogaeth drwyddedig.
- **Categori Ch** – Ymgeiswyr amser llawn a rhan-amser sy'n astudio mewn coleg ar wahân i Athrofa Padarn Sant gydag awdurdod llawn y Pwyllgor Hyfforddiant, Ffuriant a Datblygiad Gweinidogol, neu'r rhai sydd â llwybr hyfforddi pwrpasol.

Mae'r tudalennau a ganlyn yn nodi'r cymorth sydd ar gael a dylid eu darllen ochr yn ochr â'r ffurflen gais, a'r cyfraddau presennol ar gyfer y flwyddyn academiaidd hon.

Cyfrifo'r Grantiau

Ar ôl i'r ceisiadau gael eu cymeradwyo, anfonir copi atoch o'r cyfrifiadau sy'n ymwneud â'ch grant. Yna, bydd y grantiau'n cael eu talu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc ar ddiwrnod gwaith olaf bob mis.

Talu'r Grantiau

Ymgeiswyr Amser Llawn:

At ddibenion y grant, ystyrir bod y flwyddyn academiaidd yn dechrau ar 1 Medi ac yn dod i ben ar 31 Awst.

Bydd rhandaliad cyntaf eich grant yn dechrau ar 30 Medi a bydd yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc mewn rhandaliadau misol cyfartal ar ffurf ôl-ddyledion.

Bydd ymgeiswyr y flwyddyn olaf yn derbyn eu taliad grant terfynol ar 30 Mehefin, ac felly byddant yn cael grant o 10 mis yn eu blwyddyn olaf.

Ymgeiswyr Rhan-amser

Bydd y grant o £425 yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc mewn tri rhandaliad fel a ganlyn:

30 Medi £150; 31 Rhagfyr £150; 31 Mawrth £125.

Gall Ymgeiswyr Rhan-amser wneud cais am dreuliau teithio sy'n gysylltiedig â hyfforddiant **y tu allan i ardal eu gweinidogaeth**. Os yw ardal eu gweinidogaeth yn cwmpasu ardal fawr sy'n golygu bod angen teithio gryn dipyn, dylai'r ymgeisydd drafod hyn gyda'i diwtor. Nid yw treuliau teithio i

¹ Ni ddyluniwyd y grant i dalu am ddyledion.

² Mae hyn yn cynnwys ymgeiswyr sydd eisoes yn byw ym Mhadarn Sant, Caerdydd, neu gerllaw

Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi ym mis Gorffennaf 2020 ac yn gynharach

weithgareddau y byddai ymgeisydd rhan-amser wedi'u talu'n flaenorol, fel mynychu'r eglwys, yn cael eu cwmpasu.

Bydd y gost ar gyfer Diwinyddiaeth am Oes, y llwybr academiaidd arferol, yn cael eu talu ar gyfer ymgeiswyr hyd at y diwrnod y byddant yn cael eu hordeinio/derbyn eu trwydded. Mae'n bosibl y bydd costau llwybrau academiaidd eraill y cytunwyd arnynt yn cael eu talu yn ystod yr hyfforddiant cychwynnol, gyda chytundeb Deon yr Hyfforddiant Cychwynnol i Weinidogion a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau.

Cwestiynau ynglŷn â llenwi'r Ffurflen Gais

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â llenwi eich ffurflen gais, cysylltwch ag Andrew Emery yn andrewemery@churchinwales.org.uk neu 02920 348224.

Ble i Anfon Eich Ffurflenni Wedi'u Cwblhau

Dylid anfon y ffurflenni wedi'u cwblhau at:

Mrs Sharon Hayes

Bwrdd Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, 2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd, CF10 5BT

E-bost: sharonhayes@churchinwales.org.uk

Cyllid Ychwanegol

Yn dibynnu ar eich amgylchiadau, mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i dderbyn credydau treth, ewch i <https://www.gov.uk/browse/benefits/tax-credits> i gael rhagor o wybodaeth.

Mae'r Gronfa Ordinandiaid yn gronfa ymddiriedolaeth, sydd ar gael i ymgeiswyr amser llawn sy'n darparu cyllid ar gyfer:

- a) Caledi ac argyfyngau a brofir gan ordinandiaid;
- b) Ordinandiaid sy'n mynychu cynadleddau; a
- c) Ordinandiaid sydd ar leoliadau tramor.

Os oes gennych angen sy'n dod o fewn un o'r categorïau uchod, siaradwch â thiwtor.

Newidiadau mewn amgylchiadau personol

Er gwybodaeth, os bydd unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau personol yn ystod y flwyddyn academiaidd, mae gorfodaeth arnoch i hysbysu'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau o fewn 4 wythnos o unrhyw newid.

Mae Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru yn cymryd Diogelu Data o ddifrif. Mae gwybodaeth am sut mae eich data'n cael eu cadw a'u prosesu ar gael yma:

<https://www.churchinwales.org.uk/cy/privacy-notice/>. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen gwybodaeth ychwanegol arnoch, cysylltwch â'r Adran Gyfreithiol legal@churchinwales.org.uk neu dros y ffôn ar 02920 348200.

Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi ym mis Gorffennaf 2020 ac yn gynharach

CATEGORïAU O YMGEISWYR

(Ymgeiswyr amser llawn, sy'n astudio yn Athrofa Padarn Sant, ac sydd wedi symud i Athrofa Padarn, Caerdydd, neu sydd mewn eiddo ar rent gerllaw er mwyn hyfforddi.)

Mae gan ymgeiswyr Categori A amser llawn yr hawl i gael y grantiau a ganlyn, sy'n seiliedig ar brawf modd, ac sydd wedi'u rhestru yn Atodiad A.

I. GRANT CYMORTH I HYFFORDDI

Mae'r Grant Cymorth i Hyfforddi yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

Rhaid i chi ddatgan eich holl incwm personol trethadwy yn Adran A o'r ffurflen gais ar dudalen 2. Rhaid cyflwyno copïau o gyfriflenni banc y ddau fis blaenorol gyda'ch ffurflen gais.

Yn eich blwyddyn olaf, bydd y grant cymorth i hyfforddi'n cael ei leihau 2 fis calendr, gan fod yr ordeiniadau'n cael eu cynnal ym mis Mehefin.

Incwm a ddiystyrir

Os oes gennych unrhyw incwm trethadwy personol sy'n fwy na'r incwm a ddiystyrir, bydd hyn yn cael ei osod yn erbyn y grant cymorth i hyfforddi a'r grant teithio sy'n daladwy gan Athrofa Padarn. Mae'r ffigur incwm a ddiystyrir ar gyfer ymgeiswyr yn seiliedig ar gyflog curad namyn y Lwfans Personol.

II. GRANT AR GYFER PRIOD A PHLANT

Mae grant ar gyfer priod a grant ar gyfer plant (hyd at uchafswm o 4 plentyn) ar gael, sy'n dibynnu ar incwm y priod.

Dim ond plant dibynnol y dylid eu cynnwys ar y ffurflen gais. Rhowch enwau a dyddiadau geni'r holl blant dibynnol ar dudalen 1 y ffurflen gais.

Os ydych yn gwneud cais am y grant ar gyfer priod a phlant, rhaid i chi ddatgan incwm trethadwy eich priod yn Adran B ar dudalen 2 o'r ffurflen gais. Rhaid darparu tystiolaeth ychwanegol o'r holl incwm, gan gynnwys slip cyflog diweddar a chopi o gyfriflenni banc eich priod ar gyfer y ddau fis blaenorol.

Er gwybodaeth, nid oes rhaid datgelu Budd-daliadau Plant y Llywodraeth ar eich ffurflen gais. Yn eich blwyddyn olaf, bydd y grantiau ar gyfer priod a phlant yn cael eu lleihau 2 fis calendr gan fod yr ordeiniadau'n digwydd ym mis Mehefin.

Incwm a ddiystyrir

Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi ym mis Gorffennaf 2020 ac yn gynharach

Os oes gan eich priod incwm trethadwy sy'n fwy na'r incwm a ddiystyrir, bydd hyn yn cael ei osod yn erbyn y lwfansau ar gyfer priod a phlant sy'n daladwy gan yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r ffigur incwm a ddiystyrir yn seiliedig ar gyflog curad namyn y Grant ar gyfer Priod.

III. GRANT TEITHIO

Mae gan ymgeiswyr Categori A yr hawl i wneud cais am grant teithio i dalu am 3 taith ddwyffordd o Athrofa Padarn, Caerdydd, i'w hesgobaeth bob blwyddyn academiaidd, ar gyfradd bresennol CThEM fel y nodir yn Atodiad A. Mae hyn yn 45c y filltir ar gyfer y 10,000 o filltiroedd cyntaf a 25c y filltir wedi hynny o fewn yr un flwyddyn dreth (y flwyddyn dreth yw 6 Ebrill 20xx i 5 Ebrill 20xx). Os nad yw myfyriwr yn defnyddio ei ddull teithio preifat ei hun, bydd cost briodol taith ar drafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei had-dalu. Bydd y treuliau ar gyfer y teithiau hyn yn cael eu cynnwys yn y taliadau grant misol.

Nodwch y milltiroedd a deithiwyd rhwng y cyfeiriad y byddwch yn aros ynddo yn eich Esgobaeth ac Athrofa Padarn, Caerdydd (fel ar Google Maps) yn Adran C (tudalen 2) y ffurflen gais.

Mae'r treuliau teithio ar gyfer lleoliadau yn cael eu had-dalu ar wahân a gellir gwneud cais amdanynt drwy Athrofa Padarn Sant bob mis neu bob chwarter.

IV. GRANT BYW

Mae Athrofa Padarn yn gwneud darpariaeth ar gyfer y dewisiadau tai a ganlyn ar gyfer ymgeiswyr amser llawn: Llenwch yr adran Cais am Grant Tai ar dudalen 3 y ffurflen gais.

Gall ymgeiswyr Categori A, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau, wneud cais am:

i. Llety o fewn y Coleg

Bydd Athrofa Padarn yn talu am gostau llety'r ymgeiswyr sy'n byw yn Athrofa Padarn, Caerdydd.

Nid oes angen i chi ddarparu unrhyw wybodaeth ariannol os byddwch yn byw yn amser llawn yn Athrofa Padarn, Caerdydd.

ii. Llety ar rent i ymgeiswyr â theuluoedd

Ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sydd â theuluoedd, bydd llety priodol sy'n gweddu i anghenion teuluol yr ymgeisydd yn cael ei ddarparu yn agos at Athrofa Padarn, Caerdydd, lle bo ar gael, mewn tai ar rent gan yr Eglwys yng Nghymru. Rhaid trefnu llety o'r fath drwy Athrofa Padarn.

Os nad yw hyn ar gael, bydd Athrofa Padarn yn talu cost llety priodol sy'n llety preifat ar rent.

Bydd Athrofa Padarn yn talu cost y rhent, oni bai bod priod yr ymgeisydd yn ennill mwy na chyflog presennol curad. Os yw priod yn ennill mwy na'r swm hwn, bydd y Lwfans Byw yn cael ei leihau bunt am bunt uwchlaw'r swm hwn.

Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi ym mis Gorffennaf 2020 ac yn gynharach

I'r ymgeiswyr hynny'n syn byw mewn llety ar rent, yn ogystal â'r taliadau uchod, bydd Athrofa Padarn yn cyfrannu tuag at y dreth gyngor, treth dŵr, nwy a thrydan. Mae myfyrwyr amser llawn yn esempt rhag talu'r Dreth Gyngor (neu mae ganddynt hawl i ostyngiad os oes oedolyn arall yn byw yn yr eiddo ac nad yw mewn addysg amser llawn) a bydd Athrofa Padarn yn darparu llythyr i'r Cyngor i gynorthwyo'r ymgeisydd i wneud cais am y gostyngiad.

Bydd Athrofa Padarn yn talu cost yr holl gyfleustodau, oni bai bod priod yr ymgeisydd yn ennill mwy na chyflog presennol curad. Os bydd priod yn ennill mwy na chyflog presennol curad, bydd cyfanswm y Lwfans Byw yn cael ei leihau bunt am bunt uwchlaw'r swm hwn. Am y flwyddyn gyntaf mewn eiddo newydd ar rent bydd y taliadau am gyfleustodau yn seiliedig ar y cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer maint yr eiddo. Yn ystod blynyddoedd dilynol mae'n rhaid i ymgeiswyr ddarparu copïau o filiau cyfleustodau'r blynyddoedd blaenorol.

Bydd Athrofa Padarn Sant yn talu cost yr holl ofal plant sy'n **gysylltiedig â gwaith**, oni bai bod priod yr ymgeisydd yn ennill mwy na chyflog presennol curad. Mae hyn yn golygu gofal plant ar gyfer yr adegau pan fydd y ddau riant yn gweithio ac na allant felly ofalu am y plentyn/plant. Bydd angen i'r gofal plant gael ei ddarparu gan ddarparwr cofrestredig (ysgol, meithrinfa, gwarchodwr plant cofrestredig) a bydd angen dangos prawf o wariant. Os bydd priod yn ennill mwy na chyflog presennol curad, bydd cyfanswm y Lwfans Byw yn cael ei leihau bunt am bunt uwchlaw y swm hwnnw.

Bydd Athrofa Padarn, fel isafswm, bob amser yn darparu grant, yn ychwanegol at y lwfans personol, sy'n 25% o gyfanswm y costau byw a wariwyd (heb fod yn fwy na chyflog curad). Uwchlaw'r lefel honno, mae'r grant yn destun prawf modd fel y disgrifir uchod.

V. Costau Hyfforddi

Bydd holl gostau'r hyfforddiant ffurfiannol y cytunwyd arno yn cael eu talu gan Athrofa Padarn. Bydd Athrofa Padarn hefyd yn gyfrifol am noddi lle'r ymgeisydd ar y cwrs astudio academaidd y cytunwyd arno drwy gydol y cyfnod hyfforddi cychwynnol. Bydd Athrofa Padarn yn talu ddarparwr y cwrs yn uniongyrchol.

RHAID cyflwyno tystiolaeth lawn o'r symiau sy'n cael eu hawlio gyda'r ffurflen gais, Os na fydd tystiolaeth o'r fath ar gael adeg cwblhau'r ffurflen gais, dylid cyflwyno amcangyfrif a ddarparu tystiolaeth yn ddiweddarach, pan fydd modd ailasesu'r taliad.

Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi ym mis Gorffennaf 2020 ac yn gynharach

YMGEISWYR CATEGORI B

(Ymgeiswyr amser llawn, sy'n astudio yn Athrofa Padarn Sant, Caerdydd, rhwng dydd Mercher a dydd Gwener yn ystod y tymor ond sy'n parhau i fyw yn eu Heskobaeth ac sydd ar leoliad yno.)

Mae gan ymgeiswyr Categori B amser llawn hawl i dderbyn nifer o lwfansau, sy'n seiliedig ar brawf modd, ac a restrir yn Atodiad A.

I. GRANT CYMORTH I HYFFORDDI

Mae'r Grant Cymorth i Hyfforddi yn cael ei adolygu pob blwyddyn.

Rhaid i chi ddatgan eich holl incwm personol trethadwy yn Adran A o'r ffurflen gais ar dudalen 2. Rhaid cyflwyno copïau o gyfriflenni banc y ddau fis blaenorol gyda'ch ffurflen gais.

Yn eich blwyddyn olaf, bydd y grant cymorth i hyfforddi'n cael ei leihau 2 fis calendr, gan fod yr ordeiniadau'n cael eu cynnal ym mis Mehefin.

Incwm a ddiystyrir

Os oes gennych unrhyw incwm trethadwy sy'n fwy na'r incwm a ddiystyrir, bydd hyn yn cael ei osod yn erbyn y grant cymorth i hyfforddi a'r grant teithio sy'n daladwy gan Athrofa Padarn. Mae'r ffigur incwm a ddiystyrir yn seiliedig ar gyflog curad namyn y Lwfans Personol.

II. GRANT AR GYFER PRIOD A PHLANT

Mae grant ar gyfer priod a grant ar gyfer plant (hyd at uchafswm o 4 plentyn) ar gael, sy'n dibynnu ar incwm y priod.

Dim ond plant dibynnol y dylid eu cynnwys ar y ffurflen gais. Rhowch enwau a dyddiadau geni'r holl blant dibynnol ar dudalen 1 y ffurflen gais.

Os ydych yn gwneud cais am y grant ar gyfer priod a phlant, rhaid i chi ddatgan incwm trethadwy eich priod yn Adran B ar dudalen 2 o'r ffurflen gais. Rhaid darparu tystiolaeth ychwanegol o'r holl incwm, gan gynnwys slip cyflog diweddar a chopi o gyfriflenni banc eich priod ar gyfer y ddau fis blaenorol.

Er gwybodaeth, nid oes rhaid datgelu Budd-daliadau Plant y Llywodraeth ar eich ffurflen gais.

Yn eich blwyddyn olaf, bydd y grantiau ar gyfer priod a phlant yn cael eu lleihau 2 fis calendr gan fod yr ordeiniadau'n digwydd ym mis Mehefin.

Incwm a ddiystyrir

Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi ym mis Gorffennaf 2020 ac yn gynharach

Os oes gan eich priod incwm trethadwy sy'n fwy na'r incwm a ddiystyrir, bydd hyn yn cael ei osod yn erbyn y lwfansau ar gyfer priod a phlant sy'n daladwy gan yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r ffigur incwm a ddiystyrir yn seiliedig ar gyflog curad namyn y Grant ar gyfer Priod.

III. GRANT TEITHIO

Mae gan ymgeiswyr Categori B sy'n cymudo o'u cartrefi i Athrofa Padarn Sant, Caerdydd bob wythnos hawl i wneud cais am grant teithio ar gyfer y daith ddwyffordd i Athrofa Padarn, Caerdydd, bob wythnos ar gyfradd bresennol CThEM fel y nodir yn Atodiad A. Mae hyn yn 45c y filltir ar gyfer y 10,000 milltir cyntaf a 25c y filltir wedi hynny o fewn yr un flwyddyn dreth. Os nad yw myfyriwr yn defnyddio ei ddull teithio preifat ei hun, bydd cost briodol taith ar drafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei had-dalu.

Ni fydd cost defnyddio cwmni llogi preifat yn cael ei had-dalu os oes dull amgen o deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ar gael.

Mae'r treuliau teithio ar gyfer lleoliadau yn cael eu had-dalu ar wahân a gellir gwneud cais amdanynt drwy Athrofa Padarn Sant bob mis neu bob chwarter.

IV. GRANT BYW

Mae Athrofa Padarn yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymgeiswyr amser llawn sy'n aros yn eu cartrefi eu hunain drwy gydol eu hyfforddiant. Llenwch yr adran Cais am Grant Tai ar dudalen 3 o'r ffurflen gais.

Mae gan ymgeiswyr Categori B hawl i:

i. Daliad am yr elfen llog o'u morgais presennol

Bydd Athrofa Padarn yn talu llog y morgais, ar swm gwreiddiol y benthyciad pan brynwyd y tŷ, fodd bynnag, ***ni fydd Athrofa Padarn yn cyfrannu tuag at ad-daliadau cyfalaf.***

Os bydd y morgais yn "fenthyciad llog yn unig", bydd yn haws pennu'r swm a fydd yn gymwys ar gyfer cymorth;

Os bydd y morgais yn forgais ad-dalu, bydd angen didynnu'r elfen gyfalaf pan wneir yr hawliad. Efallai y bydd angen gofyn i'r benthyciwr morgaisi am ddatganiad o gyfalaf a llog.

Bydd Athrofa Padarn yn talu cyfanswm y llog ar y morgais, oni bai bod priod yr ymgeisydd yn ennill mwy na chyflog presennol curad. Os bydd priod yn ennill mwy na chyflog presennol curad, bydd y Grant Tai yn cael ei leihau bunt am bunt uwchlaw'r swm hwn.

I'r ymgeiswyr hynny sy'n byw yn eu cartref eu hunain, yn ogystal â'r symiau uchod, bydd Athrofa Padarn yn cyfrannu tuag at gostau treth gyngor, treth dŵr, nwy a thrydan. Mae myfyrwyr amser llawn yn esempt rhag talu'r Dreth Gyngor (neu mae ganddynt hawl i ostyngiad os oes oedolyn arall

Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi ym mis Gorffennaf 2020 ac yn gynharach

yn byw yn yr eiddo ac nad yw mewn addysg amser llawn) a bydd Athrofa Padarn yn darparu llythyr i'r Cyngor i gynorthwyo'r ymgeisydd i wneud cais am y gostyngiad.

Bydd Athrofa Padarn yn talu cost yr holl gyfleustodau, oni bai bod priod yr ymgeisydd yn ennill mwy na chyflog presennol curad. Os bydd priod yn ennill mwy na chyflog presennol curad, bydd cyfanswm y Lwfans Tai yn cael ei leihau bunt am bunt uwchlaw'r swm hwn. Rhaid darparu copïau o filiau cyfleustodau (a biliau treth gyngor os yn briodol) ar gyfer y flwyddyn flaenorol gyda'r cais am grant

Bydd Athrofa Padarn, fel isafswm, bob amser yn darparu grant, yn ychwanegol at y lwfans personol, sy'n 25% o gyfanswm y costau byw a wariwyd (heb fod yn fwy na chyflog curad). Uwchlaw'r lefel honno, mae'r grant yn destun prawf modd fel y disgrifir uchod.

V. Costau Hyfforddi

Bydd yr holl gostau hyfforddiant ffurfiannol y cytunwyd arnynt yn cael eu talu gan Athrofa Padarn. Bydd Athrofa Padarn hefyd yn gyfrifol am noddi lle'r ymgeisydd ar y cwrs astudio academaidd y cytunwyd arno drwy gydol cyfnod ei hyfforddiant cychwynnol. Bydd Athrofa Padarn yn talu darparwr y cwrs yn uniongyrchol.

RHAID cyflwyno tystiolaeth lawn o'r symiau sy'n cael eu hawlio gyda'r ffurflen gais, Os na fydd tystiolaeth o'r fath ar gael adeg cwblhau'r ffurflen gais, dylid cyflwyno amcangyfrif a darparu tystiolaeth yn ddiweddarach, pan fydd modd ailasesu'r taliad.

Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi ym mis Gorffennaf 2020 ac yn gynharach

YMGEISWYR CATEGORI C

(Ymgeiswyr amser llawn, sy'n astudio yn Athrofa Padarn Sant i gael trwydded.)

Mae gan ymgeiswyr Categori C rhan-amser yr hawl i gael:

I. GRANT CYMORTH I HYFFORDDI

Mae'r Grant Cymorth i Hyfforddi yn daladwy bob blwyddyn ar y gyfradd a nodir yn Atodiad A.

II. GRANT TEITHIO

Mae gan ymgeiswyr Categori C hawl i wneud cais am y treuliau a delir ar gyfer teithio mewn cysylltiad â hyfforddi, **ar wahân i deithio o fewn yr Ardal Weinidogol rydych yn byw ynddi**, ar gyfradd bresennol CThEM fel y nodir yn Atodiad A. Mae hyn yn 45c y filltir ar gyfer y 10,000 o filltiroedd cyntaf a 25c y filltir wedi hynny o fewn yr un flwyddyn dreth. Lle nad yw'r myfyriwr yn defnyddio ei ddull teithio preifat ei hun, bydd cost briodol taith ar drafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei had-dalu. Ni fydd y gost o ddefnyddio cwmni llogi preifat yn cael ei had-dalu os oes dull teithio amgen ar drafnidiaeth gyhoeddus ar gael. Ni fydd y gost o deithio i weithgareddau arferol yr ymgeisydd, fel mynychu ei eglwys ei hun, yn cael ei chynnwys.

Gellir gwneud cais am gost teithiau drwy Athrofa Padarn Sant bob mis neu bob chwarter.

Gall Ymgeiswyr Rhan-amser wneud cais am dreuliau sy'n gysylltiedig â theithio **y tu allan i ardal eu gweinidogaeth**. Os yw ardal eu gweinidogaeth yn cwmpasu ardal fawr sy'n golygu bod angen teithio gryn dipyn, dylai'r ymgeisydd drafod hyn gyda'i diwtor. Nid yw treuliau teithio i weithgareddau y byddai ymgeisydd rhan-amser wedi'u talu'n flaenorol, fel mynychu'r eglwys, yn cael eu cynnwys.

Bydd cost Diwinyddiaeth am Oes, y llwybr academiaidd arferol, yn cael ei thalu ar gyfer ymgeiswyr hyd at y diwrnod y byddant yn cael eu hordeinio/derbyn eu trwydded. Mae'n bosibl y bydd costau llwybrau academiaidd eraill y cytunwyd arnynt yn cael eu talu yn ystod yr hyfforddiant cychwynnol, drwy gytundeb Deon yr Hyfforddiant Cychwynnol i Weinidogion a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau. Bydd Athrofa Padarn yn talu darparwr y cwrs astudio yn uniongyrchol.

Er gwybodaeth, dim ond tudalen 1 o'r ffurflen gais y mae angen i ymgeiswyr Categori C ei llenwi.

Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi ym mis Gorffennaf 2020 ac yn gynharach

YMGEISWYR CATEGORI Ch

(Ymgeiswyr amser llawn neu ran-amser sy'n astudio mewn coleg ar wahân i Athrofa Padarn Sant gydag awdurdod llawn y Pwyllgor Hyfforddiant, Ffuriant a Datblygiad Gweinidogol, neu'r rhai sydd â llwybr hyfforddi pwrpasol.)

Mae gan ymgeiswyr Categori Ch amser llawn yr hawl i dderbyn nifer o grantiau, sy'n seiliedig ar brawf modd, ac sydd wedi'u nodi yn Atodiad A.

I. GRANT CYMORTH I HYFFORDDI

Mae'r Grant Cymorth i Hyfforddi'n cael ei adolygu bob blwyddyn.

Rhaid i chi ddatgan eich holl incwm personol trethadwy yn Adran A o'r ffurflen gais ar dudalen 2. Rhaid cyflwyno copïau o gyfriflenni banc y ddau fis blaenorol gyda'ch ffurflen gais.

Yn eich blwyddyn olaf, bydd y grant cymorth i hyfforddi'n cael ei leihau 2 fis calendr, gan fod yr ordeiniadau'n cael eu cynnal ym mis Mehefin.

Incwm a ddiystyrir

Os oes gennych unrhyw incwm trethadwy sy'n fwy na'r incwm a ddiystyrir, bydd hyn yn cael ei osod yn erbyn y grant cymorth i hyfforddi a'r grant teithio sy'n daladwy gan Athrofa Padarn. Mae'r ffigur incwm a ddiystyrir yn seiliedig ar gyflog curad namyn y Lwfans Personol.

II. GRANT AR GYFER PRIOD A PHLANT

Mae grant ar gyfer priod a grant ar gyfer plant (hyd at uchafswm o 4 plentyn) ar gael, sy'n dibynnu ar incwm y priod.

Dim ond plant dibynnol y dylid eu cynnwys ar y ffurflen gais. Rhowch enwau a dyddiadau geni'r holl blant dibynnol ar dudalen 1 y ffurflen gais.

Os ydych yn gwneud cais am y grant ar gyfer priod a phlant, rhaid i chi ddatgan incwm trethadwy eich priod yn Adran B ar dudalen 2 o'r ffurflen gais. Rhaid darparu tystiolaeth ychwanegol o'r holl incwm, gan gynnwys slip cyflog diweddar a chopi o gyfriflenni banc eich priod ar gyfer y ddau fis blaenorol.

Er gwybodaeth, nid oes rhaid datgelu Budd-daliadau Plant y Llywodraeth ar eich ffurflen gais.

Yn eich blwyddyn olaf, bydd y grantiau ar gyfer priod a phlant yn cael eu lleihau 2 fis calendr gan fod yr ordeiniadau'n digwydd ym mis Mehefin.

Incwm a ddiystyrir

Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi ym mis Gorffennaf 2020 ac yn gynharach

Os oes gan eich priod incwm trethadwy sy'n fwy na'r incwm a ddiystyrir, bydd hyn yn cael ei osod yn erbyn y lwfansau ar gyfer priod a phlant sy'n daladwy gan yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r ffigur incwm a ddiystyrir yn seiliedig ar gyflog curad namyn y Grant ar gyfer Priod.

III. GRANT TEITHIO

Mae gan ymgeiswyr Categori Ch sydd wedi symud o'u cartrefi i hyfforddi hawl i wneud cais am grant teithio ar gyfer 3 taith o'u cartref i'r ganolfan hyfforddi ym mhob blwyddyn ariannol ar gyfradd bresennol CThEM fel y nodir yn Atodiad A. Mae hyn yn 45c y filltir ar gyfer y 10,000 o filltiroedd cyntaf a 25c y filltir wedi hynny o fewn yr un flwyddyn dreth. Os nad oes gan fyfyrwr ei ddull teithio preifat ei hun, bydd cost briodol taith ar drafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei had-dalu. Ni fydd y gost o ddefnyddio cwmni llogi preifat yn cael ei had-dalu os oes dull amgen o deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ar gael.

Nodwch y milltiroedd o'ch cyfeiriad gwyliau i'r Coleg (fel ar Google Maps) yn Adran C (tudalen 2) o'r ffurflen gais.

IV. GRANT BYW

Mae Athrofa Padarn yn gwneud darpariaeth ar gyfer yr opsiynau tai a ganlyn i ymgeiswyr amser llawn. Llenwch yr adran Cais am Grant Tai ar dudalen 3 o'r ffurflen gais.

iii. Llety o fewn y Coleg

Bydd Athrofa Padarn yn talu am gostau llety'r ymgeiswyr sy'n byw o fewn y Coleg.

Darparwch wybodaeth am eich llety.

iv. Llety ar rent i ymgeiswyr â theuluoedd

Ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sy'n byw gyda'u teuluoedd, bydd cost llety priodol sy'n gweddu i anghenion teuluol yr ymgeisydd yn cael eu talu gan Athrofa Padarn. Rhaid i'r myfyrwr drefnu llety o'r fath ond rhaid i Athrofa Padarn ei awdurdodi yn gyntaf.

Bydd Athrofa Padarn yn talu cyfanswm cost y rhent, oni bai bod priod yr ymgeisydd yn ennill mwy na chyflog presennol curad. Os yw priod yn ennill mwy na'r swm hwn, bydd y Lwfans Tai yn cael ei leihau bunt am bunt uwchlaw'r swm hwn.

I'r ymgeiswyr hynny'n syn byw mewn llety ar rent, yn ogystal â'r taliadau uchod, bydd Athrofa Padarn yn cyfrannu tuag at y dreth gyngor, treth dŵr, nwy a thrydan.

Bydd Athrofa Padarn yn talu cost yr holl gyfleustodau, oni bai bod priod yr ymgeisydd yn ennill mwy na chyflog presennol curad. Os bydd priod yn ennill mwy na chyflog presennol curad, bydd cyfanswm y Lwfans Byw yn cael ei leihau bunt am bunt uwchlaw'r swm hwn. Rhaid i ymgeiswyr ddarparu copïau o filiau cyfleustodau'r blynyddoedd blaenorol gyda'u cais am grant.

Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi ym mis Gorffennaf 2020 ac yn gynharach

Bydd Athrofa Padarn, fel isafswm, bob amser yn darparu grant, yn ychwanegol at y lwfans personol, sy'n 25% o gyfanswm y costau byw a wariwyd. Uwchlaw'r lefel honno, mae'r grant yn destun prawf modd fel y disgrifir uchod.

V. Costau Hyfforddi

Bydd yr holl gostau hyfforddiant ffurfiannol y cytunwyd arnynt yn cael eu talu gan Athrofa Padarn. Bydd Athrofa Padarn hefyd yn gyfrifol am noddi lle'r ymgeisydd ar y cwrs astudio academaidd y cytunwyd arno am hyd ei hyfforddiant cychwynnol. Bydd Athrofa Padarn yn talu darparwr y cwrs yn uniongyrchol.

RHAID cyflwyno tystiolaeth lawn o'r symiau sy'n cael eu hawlio gyda'r ffurflen gais, Os na fydd tystiolaeth o'r fath ar gael adeg cwblhau'r ffurflen gais, dylid cyflwyno amcangyfrif a darparu tystiolaeth yn ddiweddarach, pan fydd modd ailasesu'r taliad.

**Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am
Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a
ddechreuodd hyfforddi ym mis Gorffennaf 2020 ac yn gynharach**

Atodiad A:

2020-21 CYFRADDAU GRANTIAU

YMGEISWYR AMSER LLAWN

	CYFRADDAU 2020-21	
Grant Cymorth Hyfforddiant	£5,1242	Incwm a Ddiystyrir £16,434
Grant ar gyfer Priod	£2,266	Incwm a Ddiystyrir £19,292
Grant ar gyfer Plant	£2,213 ar gyfer y plentyn cyntaf £1,461 ar gyfer pob un o'r tri phlentyn nesaf	
Grant Teithio	Hyd at 10,000 milltir = 45c y filltir Dros 10,000 milltir = 25c y filltir	
Grant Tai	Elfen rhent neu log morgais, nwy, trydan, dŵr	Os yw'r priod yn ennill mwy na £21,558 (cyflog curad), mae'r lwfans tai yn cael ei ostwng bunt am bunt uwchlaw y swm hwnnw.
Cost Astudio	Costau astudio y cytunwyd arnynt a delir yn uniongyrchol i'r darparwr gan Athrofa Padarn.	

YMGEISWYR RHAN-AMSER

	CYFRADDAU 2020-21
Grant Cymorth Hyfforddiant	Bydd £425 ynghyd â chostau astudio academiaidd cymeradwy yn cael eu talu yn ystod yr hyfforddiant
Grant Teithio	Hyd at 10,000 milltir = 45c y filltir Dros 10,000 milltir = 25c y filltir